# Cyngor Sir Ynys Môn
# Adroddiad Sgriwtini

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | Sgriwtini Corfforaethol |
| **Dyddiad:** | 18/11/2025 |
| **Pwnc:** | Adroddiad Cerdyn Sgorio Corfforaethol Ch2 2025/26 |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | Cyng. Jeff Evans |

## 1. Pwy fydd yr aelod portffolio yn cyflwyno / arwain yr adroddiad?

| **Aelod Portffolio** | **Rôl** |
|---|---|
| Cyng. Robin W Williams | Dirprwy Arweinydd, Cyllid, Busnes Corfforaethol a Phrofiad y Cwsmer |
| **Swyddog Gwasanaeth (yn cefnogi)** | **Rôl** |
| Carys Edwards | Pennaeth Proffesiwn - Adnoddau Dynol a Thrawsnewid |
| Gwyndaf Parry | Rheolwr Cynllunio, Perfformiad a Rhaglen Corfforaethol |

## 2. Pam y gofynnir i'r Pwyllgor Sgriwtini ystyried y mater

Mae'n gyfrifoldeb ar y Pwyllgor, yn unol â'i Gylch Gorchwyl, i:

Bydd gwaith y Pwyllgor yn canolbwyntio ar roi sicrwydd ynglŷn â pherfformiad / darpariad yr holl wasanaethau, sicrhau bod y Cyngor yn cyflawni ei amcanion corfforaethol a'i amcanion gwasanaeth (fel yr amlinellwyd yn ei Gynllun Busnes Corfforaethol , Cyllideb Flynyddol, Fframwaith Cyllideb a Pholisi, Fframwaith Rheoli Perfformiad, Polisïau Corfforaethol neu gynlluniau a pholisïau sy'n eu holynu) ac i gefnogi a gwneud argymhellion ar gyfer gwelliant parhaol.

## 3. Rôl y Pwyllgor Sgriwtini ac argymhellion

☒Er sicrwydd
☒Er argymhelliad i'r Pwyllgor Gwaith
☐Er gwybodaeth

Argymhelliad(ion):

1. Gofynnir i'r Pwyllgor craffu'r cerdyn sgorio a nodi'r meysydd o welliannau ynghyd â'r meysydd mae'r Tîm Arweinyddiaeth yn eu harchwilio er mwyn rheoli a sicrhau gwelliant pellach yn y dyfodol.

2. Argymhellir y rhain fel a ganlyn:



Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg
This document is available in English

2.1. Tai - 03) Nifer y dyddiau calendr a gymerwyd ar gyfartaledd i ail-osod unedau llety (ac eithrio Eiddo Anodd eu Gosod);
2.2. Tai – 04) Nifer y dyddiau calendr a gymerwyd ar gyfartaledd i ddarparu Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl (DFG)– addasiadau (£1k-10k);
2.3. Tai – 04) Nifer y dyddiau calendr a gymerwyd ar gyfartaledd i ddarparu Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl (DFG)– addasiadau (>£10k);
2.4. Economi – 04) Cyfanswm y cwsmeriaid â chytundeb angori blynyddol
2.5. Economi - 07) Canran y busnesau risg uchel sy'n cael eu harchwilio'n rheolaidd a archwiliwyd i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r Ddeddfwriaeth Hylendid Bwyd
2.6. Newid Hinsawdd – 02) Canran y gwastraff domestig a gafodd ei ailddefnyddio, ailgylchu neu gompostio;
2.7. Iechyd Cyngor Cyfan - 12) % y Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth (FOI) a dderbyniodd ymateb o fewn y cyfnod amser.

**Gofynnir i'r pwyllgor argymell y mesurau lliniaru a amlinellir uchod i'r Pwyllgor Gwaith**

## 4. Sut mae'r argymhelliad(ion) yn cyfrannu at amcanion Cynllun y Cyngor?

Defnyddir fel rhan o'r fframwaith rheoli perfformiad i fonitro Cynllun y Cyngor a'i amcanion strategol a llesiant.

## 5. Themâu sgriwtini allweddol

Y meysydd allweddol ddylai'r Pwyllgor Sgriwtini ganolbwyntio arnynt:

1. **Perfformiodd y mwyafrif (87%) o'r dangosyddion gyda thargedau a fonitrodd yn ystod y chwarter yn dda yn erbyn y targedau (RAG Gwyrdd neu Felyn).**

2. **Mae pum dangosydd yn parhau yn goch neu'n Ambr ar y Cerdyn Sgorio o Ch1**

   a. Tai – Ail-osodiadau (voids) – Er ei fod yn dal yn Goch, mae gwelliant cryf o fis i fis ers cyflwyno'r prosesau newydd ym mis Ebrill a dim ond achosion hanesyddol sy'n effeithio ar y perfformiad. **A yw'r cyngor/gwasanaeth yn credu y bydd y dangosydd hwn yn parhau i wella?**

   **b.** Tai – Dau ddangosydd DFG – Mae'r perfformiad wedi'i effeithio gan oedi cynharach ar gymeradwyo ceisiadau, gyda effaith ar argaeledd contractwyr. **A yw'r cyngor/gwasanaeth yn hyderus na fydd angen oedi eto ar gymeradwyo eleni?**

   c. Newid Hinsawdd – Ailgylchu domestig – Mae gostyngiad cadarnhaol mewn gwastraff gweddilliol (bin du) a'r Tîm Ymyrraeth wedi tynnu neu leihau nifer o finiau mawr neu luosog ar draws yr ynys. Serch hyn, arweiniodd y tywydd sych at ostyngiad mewn gwastraff gwyrdd wedi'i gompostio ac fe effeithiodd hyn ar y

perfformiad. **Gan fod y perfformiad yn parhau o dan darged Llywodraeth Cymru, a oes unrhyw oblygiadau i'r cyngor o beidio â chyrraedd y targed a beth ellir ei wneud i liniaru hyn?**

d. Cyngor cyfan – Prydlesu FOI – Er ei fod yn goch, mae gwelliant bach yn y perfformiad. Mae'r broses CRM a nodwyd yn adroddiad Ch1 bellach o dan adolygiad gyda phenodiad Swyddog Diogelu Data newydd. **A yw'r cyngor yn hyderus y bydd y broses newydd yn galluogi'r cyngor i gyrraedd y targed o 90%, neu a ellir gwneud unrhyw beth arall i wella'r perfformiad?**

**3. Mae dau ddangosydd newydd yn goch neu'n oren yn y chwarter**

**a.** Economi – Contractau angori – O dan y targed ac yn annhebygol o fodloni disgwyliadau blynyddol oherwydd bod y galw'n gostwng a'r darpariaeth marianau cystadleuol. **Beth all y cyngor/gwasanaeth ei wneud i wella'r perfformiad?**

**b.** Economi – Archwiliadau hylendid bwyd risg uchel – Syrthiodd y perfformiad yn sylweddol yn Ch2 ond yn bennaf oherwydd yr angen i weithredu gofynion trwyddedu newydd ar gyfer ymarferwyr (e.e. tatŵwyr, tyllwyr corff, ac ati). **A yw'r cyngor/gwasanaeth yn hyderus y bydd y targed ar gyfer archwiliadau hylendid bwyd risg uchel yn cael ei gyrraedd cyn diwedd y flwyddyn ariannol?**

## 6. Pwyntiau allweddol / crynodeb

**1.1** Hwn yw'r ail cerdyn sgorio ar gyfer y flwyddyn ariannol 2025/26. Mae'n dangos perfformiad y Cyngor yn erbyn ei amcanion strategol fel yr amlinellwyd yn Cynllun y Cyngor.

**1.2** Mae mwyafrif (87%) o'r dangosyddion sydd â thargedau sy'n cael eu monitro yn perfformio'n dda yn erbyn eu targedau (Gwyrdd neu Felyn)

**1.3** Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at rai straeon cadarnhaol mewn perthynas â pherfformiad chwarter 1. Mae rhai o'r uchafbwyntiau hyn yn cynnwys:

- Mae 88% o swyddi gwag y cyngor, cyfanswm o 288 o swyddi, wedi'u hysbysebu fel rhai sy'n gofyn am Lefel 3 o Gymraeg neu uwch
- Mae bron i 300,000 o gyfranogwyr wedi cymryd rhan mewn gweithgareddau Môn Actif yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn
- Roedd 88% o denantiaid yn fodlon gyda gwaith cynnal a chadw ymatebol hyd at ddiwedd mis Medi, gwelliant o gymharu â'r 84% yn Ch1
- Mae 11 o systemau gwresogi carbon isel wedi'u gosod mewn adeiladau'r cyngor hyd yn hyn gyda 23 arall wedi'u cynllunio

**1.4** Mae saith dangosydd ar hyn o bryd yn Goch neu'n Ambr yn erbyn eu targedau

- Tai - 03) Nifer y dyddiau calendr a gymerwyd ar gyfartaledd i ail-osod unedau llety (ac eithrio Eiddo Anodd eu Gosod);
- Tai – 04) Nifer y dyddiau calendr a gymerwyd ar gyfartaledd i ddarparu Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl (DFG)– addasiadau (£1k-10k);
- Tai – 04) Nifer y dyddiau calendr a gymerwyd ar gyfartaledd i ddarparu Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl (DFG)– addasiadau (>£10k);
- Economi – 04) Cyfanswm y cwsmeriaid â chytundeb angori blynyddol
- Economi - 07) Canran y busnesau risg uchel sy'n cael eu harchwilio'n rheolaidd a archwiliwyd i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r Ddeddfwriaeth Hylendid Bwyd
- Newid Hinsawdd – 02) Canran y gwastraff domestig a gafodd ei ailddefnyddio, ailgylchu neu gompostio;
- Iechyd Cyngor Cyfan - 12) % y Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth (FOI) a dderbyniodd ymateb o fewn y cyfnod amser.

## 7. Asesiadau effaith

7.1. Effeithiau posibl ar grwpiau gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010

Amh.

7.2. Effeithiau posibl ar bobl sy'n dioddef anfantais economaidd-gymdeithasol (penderfyniadau strategol)

Amh.

7.3. Effeithiau posibl ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg

Amh.

7.4. Effaith posibl ar darged Carbon Sero Net y Cyngor -

Mae'r adroddiad yn un offeryn a ddefnyddir i fonitro'r Amcan Strategol Newid Hinsawdd

## 8. Goblygiadau ariannol

Nodir sefyllfa ariannol diwedd chwarter 2 yn yr adroddiad

## 9. Atodiadau

Adroddiad Cerdyn Sgorio Ch2 2025/26

## 10. Awdur yr adroddiad a phapurau cefndir

| |
|---|
| Gwyndaf Parry, Rheolwr Cynllunio, Perfformiad a Rhaglen Corfforaethol<br>Alwyn Williams, Dadansoddwr Perfformiad a Busnes Corfforaethol<br>Cynllun y Cyngor 2023-2028<br>Adroddiad Cerdyn Sgorio Ch1 2025/26 (fel y'i cyflwynwyd i'r pwyllgor ym mis Medi 2025) |

# Cerdyn Sgorio Corfforaethol 2025/26

## Adroddiad Chwarter 2

**Paratowyd gan –** Gwasanaeth Trawsnewid

**Dyddiad cyhoeddi:** Tachwedd 2025

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg / This document is available in English

## 1. Cyflwyniad

1.1 Mae Cynllun y Cyngor 2023-28 yn nodi chwe amcan strategol ac yn nodi'r camau gweithredu a'r ymrwymiadau allweddol ar gyfer y pum mlynedd nesaf.

Welsh Language | Social Care and Wellbeing | Education | Housing | Economy | Climate Change

Cynllun y Cyngor 2023 i 2028

1.2 Defnyddir yr adroddiad cerdyn sgorio i fonitro perfformiad ein Dangosyddion Perfformiad Allweddol (DPA) ar gyfer 2024/25 wrth gyflawni gweithgareddau dydd i ddydd y Cyngor sy'n sail i gyflawni Cynllun y Cyngor.

1.3 Mae nifer o DPA yn newydd (wedi'u nodi gan [N] yn y teitlau), nid oes gan rhai ohonynt dargedau ar hyn o bryd ac maent yno i osod gwaelodlin, gyda rhywfaint o ddata ddim ar gael tan yn hwyrach yn y flwyddyn. Mae tueddiadau'n cael eu monitro o Ch2 yn ystod 2025/26 gyda'r nod o osod targedau yn 2026/27 lle bo'n briodol.

1.4 Mae'n darparu'r dystiolaeth i alluogi'r Cyngor i fonitro ei berfformiad a bod yn wybodus o ddata wrth nodi unrhyw gamau lliniaru y cytunwyd arnynt gan y Tîm Arweinyddiaeth i ysgogi a sicrhau gwelliannau perfformiad yn y dyfodol.

1.5 Mae'r canlyniadau o fewn y cerdyn sgorio i gyd yn gronnol ac felly mae colofn tuedd ar gael o Ch2 i hysbysu'r tueddiadau perfformiad o un chwarter i'r llall chwarter.

1.6 Gellir gweld y statws CAG ar gyfer bob adran o'r cerdyn sgorio, ac eithrio rheolaeth ariannol sy'n cael ei gwblhau o safbwynt barn broffesiynol, isod:

- Coch – mwy na 10% yn is na'r targed a/neu angen ymyrraeth sylweddol
- Ambr – rhwng 5% a 10% yn is na'r targed a/neu angen peth ymyrraeth
- Melyn – o fewn 5% i'r targed
- Gwyrdd – wedi cyrraedd y targed, neu wedi mynd y tu hwnt iddo.

## 2. Trosolwg

2.1 Mae mwyafrif (87%) o'r dangosyddion sydd â thargedau sy'n cael eu monitro yn perfformio'n dda yn erbyn eu targedau (Gwyrdd neu Felyn).

2.2 Mae saith dangosydd ar hyn o bryd yn Goch neu'n Ambr yn erbyn eu targedau:

2.2.1 Tai - 03) Nifer y dyddiau calendr a gymerwyd ar gyfartaledd i ail-osod unedau llety (ac eithrio Eiddo Anodd eu Gosod) – COCH – 81 diwrnod, Targed – 51 diwrnod

Mae prosesau'r dangosydd yma wedi cael adolygiad trylwyr. Mae'r gwasanaeth wedi cyflwyno rhai newidiadau i'w brosesau sydd wedi arwain at welliant yn y nifer cyfartalog o ddiwrnodau. Er bod y perfformiad cyfredol yn parhau'n GOCH, mae gwelliant clir o fis i fis gyda'r nifer o ddyddiau yn lleihau'n raddol, sy'n dangos cynnydd cadarnhaol wrth reoli trosiant ein eiddo.

Ers cyflwyno'r prosesau newydd ym mis Ebrill, mae'r amseroedd ail-osod bellach tua 54 diwrnod ar gyfartaledd. Yn anffodus, cyn gweithredu'r newidiadau, roedd eiddo a ddychwelwyd i'r cyngor yn cymryd tua 101 diwrnod ar gyfartaledd i'w hail-osod, sydd wedi arwain at gyfartaledd cronnol Ch2 o 81 diwrnod.

Bydd y gwasanaeth yn parhau i weithredu'r prosesau hyn ac yn seiliedig ar y perfformiad cyfredol, rhagwelir gwelliant pellach yn y dangosydd hwn dros gyfnod y flwyddyn.

2.2.2 Tai – 04) Nifer y dyddiau calendr a gymerwyd ar gyfartaledd i ddarparu Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl (DFG)– addasiadau (£1k-10k) - AMBR - 204 diwrnod, Targed - 190 diwrnod
ac
Tai – 05) Nifer y dyddiau calendr a gymerwyd ar gyfartaledd i ddarparu Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl (DFG) - addasiadau (>£10k) – COCH – 285 diwrnod, Targed - 221 diwrnod

Fel yr eglurwyd yn yr Adroddiad Cerdyn Sgorio Ch1, oherwydd y perygl o wario dros y gyllideb, rhoddwyd seibiant ar gymeradwyo ceisiadau newydd ym mis Tachwedd 2024. Cafodd hyn effaith pan ddechreuodd y gwasanaeth gymeradwyo eto tuag at ddiwedd Ch4 24/25. Yn anffodus, roedd y contractwyr llwyddiannus eisoes wedi symud ymlaen i brosiectau eraill, a arweiniodd at oedi wrth

ddechrau contractau. Er cynnydd bach yn y nifer o gontractwyr sydd ar gael yn lleol, nid yw hyn wedi arwain at llawer ohonynt yn ennill tendrau DFG.

Er cyd-destun, cwblhawyd 14 eiddo gydag addasiadau 'canolig' a 2 eiddo gyda addasiadau 'mawr' yn ystod Ch1. Mae'r cyngor yn parhau'n ymrwymedig i leihau nifer cyfartalog y diwrnodau calendr i gyflawni GCA

2.2.3 Economi – 04) Cyfanswm y cwsmeriaid â chytundeb angori blynyddol – COCH – 151, Targed – 170

Mae'r galw am angorfeydd yn parhau i leihau. Mae perchnogaeth cychod wedi gostwng ac mae'r dewisiad o gyfleusterau marianau gyda mannau "camu ymlaen" yn parhau i gynyddu, gan arwain at ostyngiad yn y defnydd o angorfeydd. Mae'r system o osod darn o wely'r môr ac yna gofyn i'r deiliad brynu'r offer angori a threfnu ei osod gan gontractwr trydydd parti hefyd yn gwneud angorfeydd yn Y Fenai yn llai deniadol.

Gyda chystadleuaeth gan farianau Conwy, Felinheli, Caernarfon a Phwllheli sy'n cynnig angorfeydd camu ymlaen gyda chyfleusterau, mae'n anodd rhagweld gwelliant. Dim ond system lle byddai'r cyngor yn berchen ar yr angorfeydd ac yn eu gosod, yn debyg i'r systemau a ddefnyddir gan eraill, a allai arwain at gynnydd yn y defnydd, er y byddai'r gost gychwynnol yn sylweddol ac ar hyn o bryd yn anghyraeddadwy o fewn y gyllideb. Bydd y targed blynyddol yn debygol iawn o beidio cael ei gyflawni.

2.2.4 Economi - 07) Canran y busnesau risg uchel sy'n cael eu harchwilio'n rheolaidd a archwiliwyd i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r Ddeddfwriaeth Hylendid Bwyd – COCH – 64%, Targed – 90%

Cynhaliwyd 74 o'r 116 o archwiliadau oedd yn ddisgwyliedig hyd at ddiwedd Ch2. Mae hyn yn is o gymharu â'r 85% a gyflawnwyd yn Ch1 a'r 83% a gyflawnwyd erbyn diwedd Ch2 yn 2024/25.

Er mwyn cydymffurfio â'r cynllun trwyddedu gweithdrefnau arbennig newydd, sy'n canolbwyntio ar wella safonau hylendid a diogelwch ymhlith tatŵwyr, tyllwyr corff, aciwbwntwyr a'r rhai sy'n cynnig 'electrolysis', roedd yn rhaid archwilio a thrwyddedu pob ymarferydd a safleoedd perthnasol erbyn diwedd Awst. Roedd yr archwiliadau a'r asesiadau yn aml yn gymhleth ac yn gofyn am ddau swyddog. O ganlyniad cafodd nifer yr archwiliadau bwyd a oedd yn bosibl eu cwblhau ei leihau gan fod y swyddogion gyda swyddi sy'n archwilio safleoedd bwyd ac safleoedd iechyd a diogelwch.

Derbyniodd holl safleoedd bwyd a oedd yn peri'r risg uchaf archwiliad ac fe fydd pob safle bwyd risg uchel sy'n disgwyl arolygaeth yn cael eu harolygu erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

2.2.5 Newid Hinsawdd – 02) Canran y gwastraff domestig a gafodd ei ailddefnyddio, ailgylchu neu gompostio – COCH – 66.36%, Targed - 70%

Roedd perfformiad Ch2 ar gyfer y dangosydd hwn yn 66.36% yn erbyn targed o 70%, sy'n cynrychioli dirywiad o gymharu â 67.5% yn Ch2 2024/25 a 67.8% yn Ch2 2023/24.

O ganlyniad i'r tywydd sych dros yr haf, casglwyd 371 tunnell yn llai o wastraff gwyrdd o gymharu â Ch2 2024/25, a gafodd hyn effaith negyddol ar y gyfradd ailgylchu a chompostio gyffredinol. Mae'r Tîm Ymyrraeth wedi cymryd dros 700 o finiau du i ffwrdd o eiddo oedd naill ai â mwy nag un bin du neu nad oeddent yn gymwys ar gyfer casgliad gwastraff domestig (gan fod yr eiddo naill ai'n fusnes neu'n dai haf). Mae'r tîm hefyd wedi newid tua 750 o finiau du mawr (360L) i finiau maint safonol (240L).

Cafodd gwastraff gweddilliol a gasglwyd yn ystod y cyfnod ei leihau o 281 tunnell o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, sy'n ganlyniad cadarnhaol. Fodd bynnag, oherwydd y tywydd sych casglwyd 276 tunnell yn llai o wastraff gwyrdd, a gafodd effaith negyddol ar y gyfradd ailgylchu a chompostio gyffredinol. Disgwylir effaith dymhorol debyg yn Ch2.

Er mwyn lliniaru ac i geisio gwella'r gyfradd, bydd y cyngor yn parhau â'i nod o leihau gwastraff cyffredinol ac annog mwy o ailgylchu drwy gydweithio â'r cymunedau lleol i addysgu trigolion. Mae hon yn strategaeth hirdymor sy'n gofyn am newid ymddygiad parhaus, felly bydd gwelliannau'n raddol yn hytrach nag yn syth.

Mae'r cyngor wedi sefydlu bwrdd rhaglen i drafod pa fesurau lliniaru pellach y gellir eu rhoi ar waith. Bydd unrhyw newidiadau sylweddol a nodir gan y bwrdd yn cael eu trafod gan y Pwyllgor Gwaith a'r Pwyllgorau Sgriwtini cyn gwneud unrhyw newidiadau.

2.2.6 Iechyd Cyngor Cyfan - 12) % y Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth (FOI) a dderbyniodd ymateb o fewn y cyfnod amser – COCH – 76%, Targed – 90%

Cafwyd 467 o geisiadau hyd at ddiwedd Ch2 a 111 o'r ceisiadau hynny yn hwyr. Mae'r Cyngor yn parhau'n ymrwymedig i gynyddu'r gyfradd ymateb i geisiadau FOI.

Mae Swyddog Diogelu Data (DPO) presennol y Cyngor wedi adolygu polisi a gweithdrefnau FOI y Cyngor. Yn dilyn yr adolygiad hwn, bydd manyleb newydd yn cael ei datblygu ar gyfer sefydlu ceisiadau gwybodaeth ar y system CRM, a fydd yn sicrhau bod ein gweithdrefnau yn cydymffurfio â Safonau Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO). Credir y dylai'r system ar-lein newydd wella'r perfformiad yn y tymor hir. Mae rhywfaint o ostyngiad mewn capasiti o fewn y gwasanaethau i ddelio â thasgau ceisiadau gwybodaeth hefyd yn sicrhau bod cyrraedd y targed o 90% yn un heriol.

2.3 Mae rhai enghreifftiau o'r perfformiad da a welwyd yn ystod y flwyddyn yn cynnwys:

2.3.1 Mae 88% o swyddi gwag y cyngor, cyfanswm o 288 o swyddi, wedi'u hysbysebu fel rhai sy'n gofyn am Lefel 3 o Gymraeg neu uwch
2.3.2 Mae bron i 300,000 o gyfranogwyr wedi cymryd rhan mewn gweithgareddau Môn Actif yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn
2.3.3 Roedd 88% o denantiaid yn fodlon gyda gwaith cynnal a chadw ymatebol hyd at ddiwedd mis Medi, gwelliant o gymharu â'r 84% yn Ch1
2.3.4 Mae 95% o geisiadau cynllunio, cyfanswm o 323 o geisiadau, wedi'u penderfynu o fewn amser
2.3.5 Mae 11 o systemau gwresogi carbon isel wedi'u gosod mewn adeiladau'r cyngor hyd yn hyn gyda 23 arall wedi'u cynllunio

## 3. Yr Iaith Gymraeg

| | Ch1 | Ch2 | Targed Ch2 | CAMG Ch2 | Tuedd Ch | Ch2 2024/25 | Sylwadau Ch2 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 01) Canran o swyddi hysbysebir gan y Cyngor gyda'r gofyniad iaith Gymraeg lefel 3 ac uwch [N] | 85% | 88% | 82% | G | ↑ | 77% | 288 o swyddi hysbysebir ar lefel 3 ac uwch |
| 02) Nifer swyddogion sydd yn derbyn hyfforddiant iaith Gymraeg | 50 | 64 | 62 | G | ↓ | 62 | |
| 03) Nifer o gwynion sydd yn creu amheuaeth o fethiant i gwrdd â safonau iaith Gymraeg | 0 | 0 | 4 | G | → | 4 | Un ymchwiliad yn erbyn cwyn a gododd yn 24/25 |
| 04) Nifer o gwynion arweiniodd at ymchwiliad statudol gan Gomisiynydd y Gymraeg | 1 | 1 | | | → | 0 | |
| 05) Canran o ymweliadau â rhyngwyneb ein prif wefan yn Gymraeg | 9% | 7% | 9% | M | ↓ | 7% | Ychydig llai o ymweliadau i gymharu gyda Ch1, ond tebyg i Ch2 24/25 |
| 06) Canran yr ymatebion i ymgynghoriadau swyddogol a wnaed yn Gymraeg | - | 6% | 8% | M | - | 10% | |
| 07) Canran y dilynwyr sy'n dilyn ochr Gymraeg prif gyfrifon cyfryngau cymdeithasol y Cyngor | 23% | 23% | 23% | G | → | 23% | |
| 08) Canran y disgyblion blwyddyn 11 sy'n astudio'r Gymraeg [iaith gyntaf] | | | | | | | Data ar gael yn Ch3 |
| 09) Uned Iaith - % o blant yn cyrraedd eu disgwyliadau (trochi) [N] | | | | | | | Data ar gael yn Ch3 |
| 10) Nifer busnesau yn derbyn cefnogaeth Iaith Gymraeg [N] | | | | | | | Data ar gael yn Ch3 |

## 4. Gofal Cymdeithasol a Lleisiant

| | Ch1 | Ch2 | Targed Ch2 | CAMG Ch2 | Tuedd Ch | Ch2 2024/25 | Sylwadau Ch2 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 01) Nifer yr oedolion sy'n derbyn Taliadau Uniongyrchol | 256 | 247 | 224 | G | ↓ | 226 | |
| 02) Canran yr ymholiadau amddiffyn oedolion a gwblhawyd o fewn yr amserlen statudol | 96.34% | 94.15% | 90% | G | ↓ | 89.80% | |
| 03) Canran yr oedolion sydd wedi derbyn cyngor a chymorth gan y gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chymorth ac sydd heb gysylltu â'r gwasanaeth yn ystod y 6 mis dilynol | 88.07% | 87.64% | 85% | G | ↓ | 92.96% | |
| 04) Nifer y bobl hŷn (65 oed a hŷn) y mae'r awdurdod yn eu cefnogi mewn cartrefi gofal | 295 | 323 | 335 | G | ↓ | 320 | |
| 05) Canran y rhai sy'n ofalwyr i oedolion a ofynnodd am asesiad neu adolygiad ac a gafodd asesiad neu adolygiad iddyn nhw eu hunain yn ystod y flwyddyn | 98.20% | 98.60% | 93% | G | ↑ | 95.20% | |
| 06) Yr amser y mae'r holl blant sy'n dal i fod ar y Gofrestr Amddiffyn Plant wedi'i dreulio ar y gofrestr ar gyfartaledd, fel ac yr oedd pethau ar ddiwedd y chwarter | 163 | 170 | 270 | G | ↓ | 128 | |
| 07) Plant a gafodd eu Hail-gofrestru ar y Gofrestr Amddiffyn Plant o fewn 12 mis ar ôl cael eu tynnu oddi ar y gofrestr | 3.57% | 1.56% | 15% | G | ↑ | 0 | |
| 08) Canran y cyfeiriadau plant sy'n cael eu hail-gyfeirio o fewn 12 mis | 7.69% | 15.68% | 15% | M | ↓ | 10.09% | 29 o'r 185 cyfeiriad yn rhai ail-gyfeirio |
| 09) Canran yr ymweliadau statudol â phlant mewn gofal a oedd i fod i ddigwydd yn ystod y flwyddyn a gynhaliwyd yn unol â'r rheoliadau | 90.61% | 90.39% | 90% | G | ↓ | 92.13% | |
| 10) Canran y Cynlluniau Llwybr Cychwynnol a oedd i fod i gael eu cwblhau yn ystod y flwyddyn a gwblhawyd o fewn yr amserlenni | 100% | 100% | 85% | G | → | 1 | |
| 11) Nifer o ymweliadau a Chanolfannau Hamdden | 129,096 | 260,023 | 265,188 | M | ↓ | 252,090 | |
| 12) Nifer o bobl wedi ymwneud a gweithgareddau Môn Actif [N] | 146,746 | 296,458 | 287,188 | G | ↑ | | |
| 13) Canran o rieni sy'n teimlo eu bod wedi gweld cynnydd yn dilyn cwblhau y rhaglen Positive Parenting Programme (PPP) [N] | | | | | | | Data ar gael yn Ch4 |

## 5. Addysg

| | Ch1 | Ch2 | Targed Ch2 | CAMG Ch2 | Tuedd Ch | Ch2 2024/25 | Sylwadau Ch2 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 01) Canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion cynradd (pob tymor) | 93.2% | 93.2% | 95% | M | ➔ | 93% | Perfformiad tebyg i Ch2 24/25 |
| 02) Canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion uwchradd (pob tymor) | 88.2% | 89.7% | 90% | M | 🡅 | 89% | Ychydig gwell i gymharu gyda Ch2 24/25 |
| 03) Canran gadawyr Blwyddyn 11 sydd ddim mewn Addysg, Hyfforddiant neu Gyflogaeth [NEET] | | | | | | | Data ar gael yn Ch4 |
| 04) Nifer yr ysgolion mewn Categori Dilynol / Statudol gan Estyn | 1 | 1 | | | ➔ | 0 | |
| 05) Nifer y plant a phobl ifanc sydd wedi cael eu gwahardd o'r ysgol yn barhaol | 23 | 2 | | | | 4 | |
| 06) Nifer / cyfran yr ysgolion â chynllun adfer ariannol | 6 | 6 | 6 | G | ➔ | 6 | |
| 07) Canran yr oedolion sy'n credu, ar y cyfan, fod y gwasanaeth llyfrgell maen nhw'n ei ddefnyddio yn 'dda iawn' neu'n 'dda' [N] | | | | | | | Data ar gael yn Ch4 |
| 08) Y sgôr cyfartalog gyffredinol allan o ddeg a roddwyd gan ddefnyddwyr 16 oed neu iau ar gyfer y gwasanaeth llyfrgell y maent yn ei ddefnyddio [N] | | | | | | | Data ar gael yn Ch4 |
| 09) CDU - canran o blant sy'n cyrraedd eu targedau [N] | | | | | | | Data ar gael yn Ch3 |
| 10) Nifer y plant sydd wedi symud i fyny, neu wedi cwblhau, Rhaglen Nofio Môn. [N] | 924 | 1610 | 1270 | G | 🡅 | | |

## 6. Tai

| | Ch1 | Ch2 | Targed Ch2 | CAMG Ch2 | Tuedd Ch | Ch2 2024/25 | Sylwadau Ch2 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 01) Gwasanaethau landlordiaid: Nifer y diwrnodau a gymerwyd ar gyfartaledd i gwblhau atgyweiriadau ymatebol | 15 | 14 | 18 | G | ↑ | 18 | |
| 02) Canran y tenantiaid a oedd yn fodlon â'r atgyweiriadau ymatebol | 84% | 88% | 85% | G | ↑ | 88% | |
| 03) Nifer y dyddiau calendr a gymerwyd ar gyfartaledd i ail-osod unedau llety (ac eithrio Eiddo Anodd eu Gosod) [N] | 89 | 80 | 51 | C | ↑ | | Ers sefydlu'r broses newydd ym mis Ebrill, mae'n cymryd 54 diwrnod ar gyfartaledd i ail-osod unedau. Y broses flaenorol cyn Ebrill yw'r prif reswm dros beidio â chyrraedd y targed. |
| 04) Nifer y dyddiau calendr a gymerwyd ar gyfartaledd i ddarparu Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl – addasiadau (£1k-10k) | 205 | 204 | 190 | A | ↑ | 184 | Cwblhawyd 14 o addasiadau chanolig yn Ch2 |
| 05) Nifer y dyddiau calendr a gymerwyd ar gyfartaledd i ddarparu Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl - addasiadau (>£10k) | 285 | 285 | 221 | C | → | 222 | Cwblhawyd 2 o addasiadau mawr yn Ch2 |
| 06) Nifer y Tai Cyngor a ddatblygwyd o'r newydd a nifer yr hen Dai Cyngor a brynwyd yn ôl i'w gosod fel Tai Cyngor | 4 | 13 | 13 | G | ↑ | 36 | |
| 07) Cyfanswm dyledion rhent tenantiaid cyfredol fel canran o gyfanswm y rhent y mae modd ei gasglu drwy lety parhaol | 3.19% | 3.35% | 3.10% | M | ↓ | 4% | |
| 08) Nifer yr eiddo gwag preifat a ddaethpwyd yn ôl i ddefnydd drwy'n hymyraethau Tai Gwag | 15 | 32 | 25 | G | ↑ | 34 | |
| 09) Canran yr aelwydydd a ataliwyd rhag mynd yn ddigartref | 80% | 90% | 85% | G | ↑ | 90% | |
| 10) Nifer y ceisiadau am gymorth gyda digartrefedd (asesiadau adran 62) | 117 | 292 | | | ↓ | 294 | |
| 11) Nifer yr Aelwydydd mewn Llety Brys a Dros Dro ar hyn o bryd | 79 | 84 | | | ↓ | 101 | |

## 7. Economi

| | Ch1 | Ch2 | Targed Ch2 | CAMG Ch2 | Tuedd Ch | Ch2 2024/25 | Sylwadau Ch2 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 01) % grant economaidd a datblygu / adfywio a dderbyniwyd ac a ddefnyddiwyd | 70% | 112% | | | | 41% | Gwariant o flaen amserlen |
| 02) Gwariant (cyfalaf a refeniw) ar brosiectau isadeiledd, datblygu economiadd ac adfywio (£) [N] | £1.653m | £2.758m | | | | | |
| 03) Canran yr unedau busnes a masnachol osodwyd gan y Cyngor [N] | 95% | 98% | 90% | G | ↑ | | |
| 04) Cyfanswm y cwsmeriaid â chytundeb angori blynyddol | 100 | 151 | 170 | C | ↓ | 190 | 51 o gontractau yn Ch2 yn erbyn targed o 65. Mae'n annhebygol iawn y bydd y targed blynyddol yn cael ei gyflawni. |
| 05) Canran yr holl geisiadau cynllunio a benderfynwyd mewn pryd | 94% | 95% | 90% | G | ↑ | 97% | 323 o geisiadau cynllunio wedi'u penderfynu mewn pryd |
| 06) Canran y ceisiadau gorfodi cynllunio a ymchwiliwyd iddynt o fewn 84 diwrnod | 87% | 79% | 80% | M | ↓ | 92% | |
| 07) Canran y busnesau risg uchel sy'n cael eu harchwilio'n rheolaidd a archwiliwyd i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r Ddeddfwriaeth Hylendid Bwyd | 85% | 64% | 90% | C | ↓ | 83% | 74 o'r 116 o archwiliadau wedi'u cynnal. Mae'r holl fusnesau gyda'r risgiau uchaf wedi'u harolygu. Mae cynlluniau ar waith i ddal i fyny yn ail hanner y flwyddyn. |
| 08) Canran y sefydliadau bwyd sy'n cyrraedd y safonau hylendid bwyd | 99% | 99% | 95% | G | → | 98% | |
| 09) Nifer o bobl wedi eu cefnogi i baratoi ar gyfer byd gwaith, drwy ymyraethau SPF [N] | 162 | 320 | | | ↑ | | |

## 8. Newid Hinsawdd

| | Ch1 | Ch2 | Targed Ch2 | CAMG Ch2 | Tuedd Ch | Ch2 2024/25 | Sylwadau Ch2 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 01) Cyfanswm yr allyriadau carbon sy'n dod o adeiladu'r cyngor (tC02e) | | | | | | | Data ar gael yn Ch4 |
| 02) Canran y gwastraff domestig a gafodd ei ailddefnyddio, ailgylchu neu gompostio | 65.95% | 66.36% | 70% | C | ↓ | 67.46% | Dim gwelliant pellach ers Ch1, yn rhannol oherwydd gostyngiad yn y Gwastraff Gwyrdd oherwydd y tywydd cynhesach. |
| 03) Canran y gwastraff a gafodd ei ailddefnyddio, ailgylchu neu gompostio o adeiladu'r Cyngor | 46% | 44.4% | | | ↓ | 48% | Mae'r gyfradd wedi gostwng o'i chymharu â Ch2 2024/25 |
| 04) Canran y strydoedd sy'n lân | 100% | 100% | 96% | G | → | 97.5% | |
| 05) Nifer y dyddiad a gymerwyd ar gyfartaledd i glirio digwyddiadau tipio anghyfreithlon | 0.01 | 0.03 | 1 | G | ↓ | 0.04 | |
| 06) Canran y prif ffyrdd A sydd mewn cyflwr gwael (blynyddol) | | | | | | | Data ar gael yn Ch3 |
| 07) Canran y ffyrdd B sydd mewn cyflwr gwael (blynyddol) | | | | | | | Data ar gael yn Ch3 |
| 08) Canran y ffyrdd C sydd mewn cyflwr gwael (blynyddol) | | | | | | | Data ar gael yn Ch3 |
| 09) Cyfanswm allyriadau carbon fflyd y Cyngor (tC02e inc WTT) | 156.5 | 311.02 | 320 | G | ↑ | 320 | |
| 10) Nifer o Ysgolion yn cymryd rhan mewn cynlluniau Newid Hinsawdd wedi eu achredu [N] | | | | | | | Data ar gael yn Ch3 |
| 11) Nifer o systemau gwresogi carbon isel wedi eu gosod yn adeiladau y Cyngor [N] | | 11 | | | | | 11 o osodiadau wedi'u cwblhau gyda 23 arall wedi'u cynllunio |
| 12) Defnydd o bwyntiau gwefru cyhoeddus y Cyngor (kwh) [N] | 76,786 | 149,427 | | | ↓ | | Mae hyn yr un peth â gyrru o Gaergybi i Gaerdydd ac yn ôl dros 1,100 o weithiau |

## 9. Iechyd Cyngor Cyfan

| | CAMG | Tuedd | Cyllideb | Canlyniad | Amrywiant (%) | Rhagolygon o'r Gwariant | Amrywiant a Ragwellir (%) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 01) Alldro a ragwelir ar ddiwedd y flwyddyn (Refeniw) | G | → | £192,983,000 | | | £192,331,000 | -0.34% |
| 02) Alldro a ragwelir ar ddiwedd y flwyddyn (Cyfalaf) | | ↑ | £35,148,000 | | | £33,111,000 | -5.80% |
| 03) Incwm yn erbyn Targedau (ac eithrio grantiau) | G | ↓ | -£8,204,707 | £9,847,700 | 20.03% | | |
| 04) Balansau cyffredinol a ragwelir ar ddiwedd y flwyddyn | | ↑ | | | | -£17,416,300 | |
| 05) Cost benthyca - % y gwariant refeniw a gyllidwyd ar ei gyfer | | → | 2.35% | | | 2.35% | |
| 06) Nifer y Gwasanaethau a ragwelir yn gorwario mwy na 5% o'u cyllideb | | → | | | | 2 | |
| 07) % y Dreth Gyngor a gasglwyd (ar gyfer y 3 mis diwethaf) | M | ↑ | | 97.1% | | | |
| 08) % y Mân Ddyledion a gasglwyd (ar gyfer y 3 mis diwethaf) | M | ↑ | | 91.4% | | | |

| | Ch1 | Ch2 | Targed Ch2 | CAMG Ch2 | Tuedd | Sylwadau Ch2 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 09) Cyfanswm y cwynion cam 2 a gafodd eu cadarnhau / cadarnhau'n rhannol | 1 | 3 | 6 | G | ↓ | 3 cwyn corfforaethol |
| 10) Cyfanswm % y cwynion cam 2 a gafodd ymateb ysgrifenedig fewn 20 diwrnod (Corfforaethol) | 100% | 87% | 80% | G | ↓ | |
| 11) Cyfanswm % y cwynion a gafodd ymateb ysgrifenedig fewn 15 diwrnod (Gwasanaethau Cymdeithasol) | 80% | 80% | 80% | G | → | Roedd dau gwyn cam 1 yn hwyr ond roedd amser ychwanegol wedi cytuno gyda'r achwynyddion |
| 12) % y ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth a dderbyniodd ymateb o fewn y cyfnod amser | 74% | 76% | 90% | C | ↑ | 111 o'r 467 cais FOI yn hwyr |
| 13) Cyfran yr ymholiadau a gafodd eu datrys a'u cau gan Cyswllt Môn (heb eu hanfon ymlaen at Wasanaeth) | 32% | 35% | | | ↑ | |
| 14) Nifer y staff yn yr awdurdod cyfan, gan gynnwys athrawon a staff mewn ysgolion (FTE) | 2376 | 2380 | | | ↑ | |
| 15) Absenoldeb Salwch - dyddiau / shifftiau gwaith a gollwyd ar gyfartaledd | 1.93 | 3.93 | 4.08 | G | ↓ | |
| 16) Salwch Tymor Byr - dyddiau / shifftiau gwaith a gollwyd ar gyfartaledd fesul FTE | 0.92 | 1.73 | | | ↑ | |
| 17) Salwch Tymor Hir - dyddiau / shifftiau gwaith a gollwyd ar gyfartaledd fesul FTE | 1.01 | 2.2 | | | ↓ | |
| 18) Gweithwyr sydd wedi gadael yr Awdurdod Lleol (%) (Trosiant) | | | | | | |
| 19) % y swyddi a gafodd eu hysbysebu a'u llenwi ar ôl cael eu hysbysebu unwaith | 78% | 73% | 70% | G | ↓ | 96 o swyddi wedi llenwi ar ôl yr hysbyseb cyntaf |

## 10. Casgliad ac Argymhellion

10.1 Mae'r perfformiad o 87% o'r dangosyddion perfformiad yn well neu o fewn 5% i'w targedau ar gyfer y chwarter yn gadarnhaol.

10.2 Mae'n dangos bod gwasanaethau'n gweithredu yn unol â gwerthoedd ac egwyddorion cyffredinol y Cyngor.

10.3 **Argymhelliad – bod y Tîm Arweinyddiaeth yn rheoli, ymchwilio a sicrhau gwelliannau i'r dyfodol ar gyfer y DPA a ganlyn:**

10.3.1 Tai - 03) Nifer y dyddiau calendr a gymerwyd ar gyfartaledd i ail-osod unedau llety (ac eithrio Eiddo Anodd eu Gosod);

10.3.2 Tai – 04) Nifer y dyddiau calendr a gymerwyd ar gyfartaledd i ddarparu Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl (DFG)– addasiadau (£1k-10k);

10.3.3 Tai – 05) Nifer y dyddiau calendr a gymerwyd ar gyfartaledd i ddarparu Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl (DFG)– addasiadau (>£10k);

10.3.4 Economi – 04) Cyfanswm y cwsmeriaid â chytundeb angori blynyddol

10.3.5 Economi - 07) Canran y busnesau risg uchel sy'n cael eu harchwilio'n rheolaidd a archwiliwyd i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r Ddeddfwriaeth Hylendid Bwyd

10.3.6 Newid Hinsawdd – 02) Canran y gwastraff domestig a gafodd ei ailddefnyddio, ailgylchu neu gompostio;

10.3.7 Iechyd Cyngor Cyfan - 12) % y Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth (FOI) a dderbyniodd ymateb o fewn y cyfnod amser.